❖ **Nadolig**

Mae stori y Nadolig yn dal o hyd mewn bri,
A hi yw'r un hyfryta a'r orau gennym ni.

Cyfriniaeth Gŵyl y Geni sy'n destun cân i'r byd,
A hud y Seren Fore yn swyno dyn o hyd.

Mae ateb y bugeiliaid i gais yr engyl glân
A hynod ffydd y doethion yn hyfryd euro'r gân.

Mae'r stabl a'i hamgylchedd a llonydd trwm y nos
Yn troi yn obaith newydd ym mhorth y wawrddydd dlos.

Mae'r alwad eto'n aros i nesu at Ei grud
A chyfle i adnabod y Trysor gwerthfawr drud.

Meurig Jones